Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Cymorth Amaethyddol

17 Hydref 2023 i 31 Mawrth 2025



Mawrth 2026

# Cyflwyniad

Mae adran 13 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad blynyddol sy'n disgrifio'r cymorth ariannol ac anariannol a ddarperir o dan adran 8 o'r Ddeddf ym mhob cyfnod adrodd, a chyhoeddi a gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru. Gall Gweinidogion Cymru gynnwys unrhyw wybodaeth arall sydd yn eu barn nhw yn briodol yn yr adroddiad.

Fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn yn cwmpasu'r cyfnod 17 Hydref 2023 i 31 Mawrth 2025. Bydd y cyfnodau adrodd wedi hynny yn cyd-fynd â blynyddoedd ariannol (1 Ebrill i 31 Mawrth). Bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru a'u cyhoeddi o fewn 12 mis ar ôl y cyfnod adrodd.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau ynghylch y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r sector amaethyddol yng Nghymru, ac mae'n cynnwys:

- Cynllun Cymorth Amlflwydd
- Dangosyddion Rheoli Tir Cynaliadwy a Datganiad Targed
- Adroddiad blynyddol
- Adroddiad Effaith
- Adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys manylion yr holl gymorth ariannol a ddarparwyd o dan adran 8 yn ystod y cyfnod adrodd, a hefyd wybodaeth am y cymorth ariannol ac anariannol a ddarparwyd o dan bob cynllun cymorth a sefydlwyd yn unol ag adran 8(3), yn ystod yr un cyfnod adrodd. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnwys disgrifiad o unrhyw gymorth arall nad yw'n gymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd, nad yw dan gynllun a enwir yn adran 8(3), ac unrhyw wybodaeth arall sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn briodol.

Fodd bynnag, fel y gwelir yn Nhabl 1, yn ystod y cyfnod adrodd hwn, nid oes cymorth wedi'i sefydlu yn unol ag adran 8 y Ddeddf, ac felly nid oes dim wedi'i ddatgan. Ar 1 Ionawr 2026 lansiwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dyma'r cynllun cymorth cyntaf a sefydlwyd yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf. Bydd cymorth yn unol â'r cynllun hwnnw'n dechrau cael ei ddarparu yn ystod Blwyddyn Ariannol 26/27, felly dechreuir adrodd amdano yn yr adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2028.

Er mwyn bod yn dryloyw ac atebol, mae'r cymorth amaethyddol a ddarparwyd drwy bwerau heblaw am y rheini yn adran 8 y Ddeddf, am ddwy flwyddyn ariannol wedi eu cynnwys yn y cyfnod adrodd, gweler Tabl 2.

# Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy ("SLM") fel y fframwaith ar gyfer rheoleiddio a darparu cymorth amaethyddol yng Nghymru. Mae pedwar amcan SLM sy'n sail i reoleiddio a chymorth amaethyddol yng Nghymru:

- Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.
- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt.
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, annog y cyhoedd i gael mynediad iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Bwriedir hefyd i bob amcan ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw, a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhaid i Weinidogion Cymru wneud swyddogaethau penodol, gan gynnwys swyddogaethau o dan y Ddeddf (gyda rhai eithriadau – gweler adrannau 2 a 3) yn y ffordd sydd, yn eu barn nhw, yn cyfrannu orau at gyflawni amcanion SLM, i'r graddau bod hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.



## Gwybodaeth am y cymorth a ddarparwyd o dan adran 8 yn ystod y cyfnod adrodd, fel sy'n ofynnol o dan adran 13(1) a (2) o'r Ddeddf.

*Yn ystod y cyfnod adrodd (17 Hydref 2023 i 31 Mawrth 2025), ni ddarparwyd unrhyw gymorth o dan adran 8 y Ddeddf. Cychwynnodd y cynllun cymorth cyntaf i ddefnyddio'r pwerau hyn ar 1 Ionawr 2026. Bydd cymorth yn unol â'r cynllun hwnnw'n dechrau cael ei ddarparu yn ystod Blwyddyn Ariannol 26/27, felly dechreuir adrodd amdano yn yr adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2028.

### Tabl 1

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y cymorth ariannol a ddarparwyd o dan adran 8 yn ystod y cyfnod adrodd – adran 13(2)(a)** | Dim* |
| **Cyfanswm y cymorth ariannol a ddarparwyd o dan gynllun adran 8(3) yn ystod y cyfnod adrodd – adran 13(2)(b)(i)** | Dim* |
| **Disgrifiad o unrhyw gymorth arall a ddarparwyd o dan gynllun adran 8(3) yn ystod y cyfnod adrodd – adran 13(2)(b)(ii)** | Dim* |
| **Disgrifiad o unrhyw gymorth ac eithrio cymorth ariannol a ddarparwyd o dan adran 8 yn ystod y cyfnod adrodd, ond nid o dan gynllun a enwir yn adran 8(3) – adran 13(2)(c)** | Dim* |

## Gwybodaeth am y cymorth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd o dan bwerau ac eithrio'r rheini yn adran 8 y Ddeddf.

Er mwyn bod yn dryloyw ac atebol, mae Gweinidogion Cymru yn rhoi manylion yr holl gymorth amaethyddol a ddarparwyd yn ystod dwy flynedd ariannol (23/24 a 24/25) sy'n gorgyffwrdd â'r cyfnod adrodd (Tabl 2).

Mae hyn yn cynnwys Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig, iawndal TB Gwartheg a'r Rhaglen Rhwydwaith Natur a ddarperir gan ddefnyddio pwerau ac eithrio'r rheini o dan adran 8 o'r Ddeddf.

### Tabl 2

| | Blwyddyn Ariannol 23/24 | Blwyddyn Ariannol 24/25 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y cymorth ariannol a ddarparwyd o dan bwerau ac eithrio adran 8 o'r Ddeddf** | £286,188,499 | £328,806,163 |

**Cymorth anariannol a ddarparwyd yn ystod blynyddoedd ariannol 23/24 a 24/25 o dan bwerau ac eithrio adran 8 o'r Ddeddf**

- Cronfa Her Technoleg Bwyd-Amaeth
- Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (datblygu)
- Twbercwlosis Gwartheg (TB)
- Prosiect Dileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)
- Cyswllt Ffermio
- Prosiect Dileu'r Clafr
- Cynlluniau Arloesi Cynaliadwy
- Cynllun Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd Cymru

Mae rhagor o fanylion am y cymorth a ddarperir i'w gweld yn y **Cynllun Cymorth Aml-Flwydd Amaethyddiaeth** a / neu **Grantiau a thaliadau gwledig | Is-bwnc | LLYW.CYMRU**

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53727, ISBN digidol 978-1-83745-198-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg